# Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Angladdau a Phrofedigaeth

27 Tachwedd 2013

## Cofnodion

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Phresenoldeb**

Yn bresennol:

Mark Isherwood AC
William Graham AC
Rhodri Glyn Thomas AC
Janet Finch-Saunders AC
Paul Davies AC
Russell George AC
David Melding AC
Roy Folland
Martin Birch
Alan Slater
Nigel Lymn Rose
Philip Blatchley
Janette Bourne
David Beamer

Ymddiheuriadau:

Andrew RT Davies AC
Janice Gregory AC
Antoinette Sandbach AC
Darren Millar AC
Lorraine Barrett

**Eitem 2: Cymeradwyo'r Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Cytunwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r eitemau perthnasol ar yr agenda.

**Eitem 4: David Melding AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad - Mynwentydd yng Nghymru**

Siaradodd David Melding AC â'r Grŵp ynghylch adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y darpariaethau deddfu ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru. Nododd na all yr Eglwys yng Nghymru basio mynwentydd pan fônt yn llawn i awdurdodau lleol eu cynnal (yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr). O ganlyniad i hyn, roedd yr Eglwys yng Nghymru yn amharod iawn i agor mynwentydd newydd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i ddarparu mwy o le i gladdu yng Nghymru. Teimla'r Grŵp y byddai adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r ddeddfwriaeth bresennol yn werthfawr iawn. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn amlinellu adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sefyllfa'r Grŵp mewn perthynas â'r angen am adolygiad, a chynnig cymorth y Grŵp (a fyddai'n cynnwys trefnwyr angladdau ac awdurdod lleol) er mwyn dod o hyd i ateb.

**Eitem 5: Cyllid gan y llywodraeth / ffynonellau eraill ar gyfer angladdau, gan gynnwys y gronfa gymdeithasol a cheisiadau am dalu ymlaen llaw**

Amlinellodd y Cadeirydd ohebiaeth a gafodd gan Cruse Bereavement Care ar argaeledd cymorth ariannol i berson sy'n galaru ac sy'n derbyn budd-daliadau. Cynigiodd Janette Bourne ddarparu cymorth a chytunodd i gysylltu â'r Ysgrifennydd.

Yna cafwyd trafodaeth ynghylch y diffyg rhwng y taliadau ar gyfer angladdau o'r gronfa gymdeithasol a'r gost am angladd syml. Cafodd elusennau a sefydliadau a allai ddarparu cymorth eu harchwilio, gan gynnwys CAB, y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, a Chymdeithasau Tai. Amlinellodd Martin Birch y cymorth sydd ar gael gan Awdurdodau Lleol. Cynigiodd Alan Slater ofyn am ragor o wybodaeth/adborth gan drefnwyr angladdau yng Nghymru a nododd y Cadeirydd y gellid defnyddio'r wybodaeth hon mewn gohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Llywodraeth Leol ar y mater sy'n ymwneud â thlodi o ran angladdau.

**Eitem 6: Yr ymgyrch Cymdeithas Masnach a Chod Ymarfer - Y gefnogaeth i Ddatganiad Barn a'i eiriad**

Cafwyd trafodaeth ynghylch y gefnogaeth a gafwyd hyd yma i Ddatganiad Barn a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012. Cytunodd y Cadeirydd yr awgrymir geiriad newydd i Rebecca Evans AC er mwyn cael cefnogaeth y Blaid Lafur ar gyfer y Datganiad Barn. Os cytunir ar y geiriad newydd, byddai'r Datganiad Barn yn cael ei adolygu a'i ddosbarthu i TCC am eu sylwadau. Os bydd yn aros yr un fath, byddai llythyr drafft a drafodwyd yn ein cyfarfod diwethaf yn cael ei anfon at dargedau o fewn taenlen a drafodwyd hefyd yn ein cyfarfod diwethaf. Cafodd y daenlen ei diweddaru yn dilyn y cyfarfod hwn.

**Eitem 7: Oedi rhwng marwolaeth ac angladd/amlosgiad, gan gynnwys yr oedi a achosir gan alwadau gan gorffdai'r GIG i weld y Ffurflen Werdd, casglu tystysgrif farwolaeth a threfnu apwyntiadau â Chofrestryddion**

Amlinellodd Roy Folland ei bryderon ynghylch profiadau dyn a gollodd ei wraig. Profodd y dyn drallod sylweddol oherwydd problemau wrth gasglu'r dystysgrif farwolaeth ac yna gwneud apwyntiad â'r Cofrestrydd. Nododd Mr Folland ers iddo ddechrau mynegi ei bryderon, bod grŵp profedigaeth wedi'i sefydlu yn ei ardal leol er mwyn ceisio atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd.

Trafodwyd ymateb gan Mark Drakeford AC dyddiedig 31 Mai 2013 ynghylch ysbytai'r GIG yn mynnu eu bod yn cael Tystysgrif y Cofrestrydd ar gyfer Angladd neu Amlosgiad (a elwir fel arfer y "Ffurflen Werdd") cyn rhyddhau corff. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Jane Ellison AS, Gweinidog Iechyd Cyhoeddus y DU, i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y ffurflen ddrafft ar gyfer rhyddhau corff a'r ymgynghoriad a gafodd ei grybwyll yn llythyr Mr Drakeford. Byddai'r Cadeirydd hefyd yn ymateb i Mark Drakeford AC i bwysleisio'r pwysigrwydd o ddatrys y broblem ynghylch y Ffurflen Werdd, rhoi eglurhad o'r cyngor a roddir i gorffdai'r GIG yng Nghymru, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad arfaethedig.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

Gofynnodd Mark Isherwood AC am gael gwahodd cynrychiolydd o CAB i'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 9: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau.